



<p>Yr hanner tymor hwn: Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth i'w datblygu:</p> <ul style="list-style-type: none"> SGILIAU: Bydd pob unigolyn yn gallu defnyddio'r broses dylunio ailadroddol i ddylunio a gwneud prosiect golau. GWYBODAETH: Bydd myfyrwyr yn deall ac yn gwybod am y broses o ddefnyddio jigiau, uniadau pren a thurnio pren. DEALLTWRIAETH: Bydd myfyrwyr yn dangos eu dealltwriaeth trwy ddylunio, datblygu a gweithgynhyrchu prosiect golau. <p><i>Mae'n rhaid nodi, oherwydd natur ymarferol y modiwl hwn, mae'r holl fyfyrwyr yn gweithio ar gyflymder gwahanol felly mae rhai newidiadau i'r Rhaglen Ddysgu yn anochel.</i></p>			<p>Termau / Geiriau Allweddol:</p> <p>Briff, Manyleb, Rheoli ansawdd, Goddefiant, Samplau, Lluniadu, Offer, Adeiladwaith, Llif, Atodi, Cysylltu, Siapio, Torrwr laser, Uniad cynffonnog, Bwrdd pîn, Turn, Arloesol, Uno, Jig, Uniadau, Uno, Adlynon, Jig, Gludo.</p>
<p>Deilliannau Dysgu Wythnos 1:</p> <p>1. Bydd myfyrwyr yn deall am wahanol fathau orffeniadau pren, ee farnais, cwyr, paent, olew, staen, olew Daneg a Cheidwad Coed. Byddant hefyd yn dysgu sut i baratoi a gorffen pren gan ddefnyddio graddau gwahanol o bapur gwydr. Er mwyn dangos eu dealltwriaeth, byddant yn egluro'r gwahanol briodweddau a'r defnyddiau ar gyfer samplau ymarferol.</p> <p>2 & 3. Bydd myfyrwyr yn deall ac yn dysgu am y prosesau a ddefnyddir i greu, prosesu ac adeiladu / cynhyrchu byrddau gweithgynhyrchu. Yna byddant yn gallu adnabod coedwigoedd a gynhyrchir ac yn esbonio eu priodweddau a'u defnydd trwy eu nodi i lawr. Bydd angen edrych ar enghraifft fideo ar-lein hefyd er mwyn deall ymhellach a chynhyrchu nodiadau eu hunain trwy fap meddwl.</p> <p>Byddant hefyd yn dysgu am y gwahanol ffurfiau y gellir dod o hyd i goed ynddo e.e. planciau, bwrdd, stribed, hoelbren ac ati. Byddant yn cofnodi pob canfyddiad o wahanol ffurf trwy fap meddwl ac yn ychwanegu diagramau i ddangos eu dealltwriaeth.</p>		<p>Meini Prawf Llwyddiant</p> <p>1. Deall am wahanol orffeniadau a sut i baratoi cynhyrchion i'w gorffen</p> <p>2. Deall pwysigrwydd gwybod sut i gynhyrchu gwahanol fathau o ddeunyddiau a'r math o ffurfiau stoc y mae deunyddiau'n dod ynddo</p>	<p>Gwaith Cartref W1</p>
<p>Deilliannau Dysgu Wythnos 2:</p> <p>4. Bydd y myfyrwyryn deall am wahanol fathau o Ffitiadau gosod (KDF). Byddant yn darllen gwybodaeth yn seiliedig ar y gosodiadau ac yn eu cyfateb i'r rhai a roddir fel sampl. Byddant yn dangos eu dealltwriaeth trwy esbonio lle maent yn cael eu defnyddio ac i beth, a braslunio sut maent yn gweithio. Bydd myfyrwyr yn defnyddio / ymarfer ar gymalau 'KDF' gwahanol. Bydd myfyrwyr yn deall y gwahaniaeth rhwng cymalau parhaol a thros dro.</p> <p>5. Bydd myfyrwyr yn.....deall am wahanol fathau o uniadau pren. Byddant yn darllen gwybodaeth yn seiliedig ar uniadau ac yn eu cyfateb i'r uniadau pren a roddir fel sampl. Byddant yn dangos eu dealltwriaeth trwy esbonio lle maent yn cael eu defnyddio ac i beth, a braslunio sut y maent yn uno â'i gilydd.</p>		<p>Meini Prawf Llwyddiant</p> <p>1. Deall am wahanol osodiadau, ffitiadau a chymalau.</p> <p>2. Deall pwysigrwydd o wybod sut i uno â gwahanol fathau o bren a pha un sydd fwyaf addas.</p>	<p>Gwaith Cartref W2</p>
<p>Deilliannau Dysgu Wythnos 3:</p> <p>6. Bydd myfyrwyr yn..... deall am y gwahanol fathau o jigiau sydd ar gael i gwblhau tasgau pren ymarferol. Bydd myfyrwyr yn cwblhau tasg ar ddylunio jig i'w ddefnyddio wrth drilio. Bydd myfyrwyr yn gweld gwahanol fathau o jigiau a ddefnyddir mewn gweithdy ysgol. Byddant yn meddwl am ddylunio eu jig eu hunain am dasg drilio / torri.</p> <p>7. Bydd myfyrwyr yn.....deall am ddulliau o ddrilio a marcio deunyddiau. Bydd myfyrwyr yn gweld y mathau gwahanol o ddriliau sydd ar gael i'w defnyddio yn yr ysgol a byddant yn deall sut i'w defnyddio yn ddiogel. Byddant hefyd yn gwynod sut i newid yr ebillau a gwybod am y gwahanol ddarnau sydd ar gael i'w defnyddio. Byddant hefyd yn gwybod am dyllau peilot, clirio a gwrthbwyso.</p> <p>8. Bydd myfyrwyr yn.....yn eistedd ei arholiad Blwyddyn 10 yn ymdrin a'r holl agweddau theori sydd wedi eu trafod hyd yn hyn.</p>	<p style="text-align: center;"></p> <p style="text-align: center;">Asesiad Crynodol: Arholiad Blwyddyn 10</p> <div style="border: 1px solid blue; padding: 2px; width: fit-content; margin: 5px auto;">Asesiad Crynodol</div> <div style="border: 1px solid red; padding: 2px; width: fit-content; margin: 5px auto;">Gradd:</div>	<p>Meini Prawf Llwyddiant</p> <p>1. Byddant yn gallu deall beth yw jig a sut mae'n hwyluso'r broses weithgynhyrchu.</p> <p>2. Byddant yn gallu deall am wahanol fathau o ddrilio a phwysigrwydd I & D.</p> <p>3. Byddant yn ymgymryd â'u Arholiad</p> <p>4. Byddant yn defnyddio'r wybodaeth a ddysgwyd yn flaenorol i'w gwblhau</p>	<p>Gwaith Cartref W3</p> <p>Tasg Ymchwil ar gwmni – Airbus UK</p>

<p>Deilliannau Dysgu Wythnos 4:</p> <p>9. Bydd myfyrwr yn.....cwblhau eu tasg ACD.</p> <p>10. Bydd myfyrwr yn.....gwybod am wahanol uniadau pren a'u cryfderau a'u gwendidau. Bydd y myfyrwr yn dechrau ymarfer uniadau gwahanol: meitr, hoelbren, mortais a thyno, haneru a 'dovetail'. Bydd y myfyrwr yn mesur, marcio, torri a siâpio'r uniadau i ffitio gan ddefnyddio'r offer a cyfarpar cywir. (neu cant arddangosiad a chofnodi eu canfyddiadau yn eu llyfrau braslunio). Bydd myfyrwr yn deall gwahanol briodweddau'r uniadau ac yn cofnodi'r camau a gymerwyd yn eu llyfrau braslunio gan ddefnyddio Map Meddwl.</p>	<p style="text-align: center;"></p> <p style="text-align: center;">Tasg: Ysgrifennu traethawd am y cwmni Airbus UK</p> <p style="text-align: center;">ACD</p> <p style="text-align: center;">Gradd:</p>	<p>Meini Prawf Llwyddiant</p>	<p>Gwaith Cartref W4</p>
<p>Deilliannau Dysgu Wythnos 5:</p> <p>11, 12 & 13 Bydd y myfyrwryn deall y meini prawf ar gyfer yr uned newydd trwy gael briff dylunio i weithio ohono. Bydd myfyrwr yn arddangos eu sgiliau meddwl trwy greu Map Meddwl am eu Golau. Bydd angen i fyfyrwr ystyried y datganiadau canlynol - Pwy / Beth / Pryd / Ble / Pam. Bydd angen iddynt grynhoi eu dewisiadau a dylunio 1-2 syniad am eu golau.</p>		<p>Meini Prawf Llwyddiant</p> <p>1. Byddant yn deall am wahanol uniadau / ffurfwyr sy'n barod i gynhyrchu eu uniadau pren eu hunain.</p>	<p>Gwaith Cartref W5</p>
<p>Deilliannau Dysgu Wythnos 6:</p> <p>14 & 15. Bydd myfyrwr yn.....yn gwybod sut y defnyddir y Turn i droi deunyddiau pren a pheiriant Melinio i greu slot / ymyl. Byddant yn cael gweld sut i'w osod a phlaenio'r deunydd yn barod ar gyfer troi. Bydd angen iddynt gofnodi'r gwaith yn eu llyfrau braslunio fel elfen theori. Bydd y myfyrwr yn dysgu am egwyddorion cynhyrchu cynhyrchion pren gan ddefnyddio'r prosesau canlynol: uno, argaenu, lamineiddio a phlygu a stêm</p>		<p>Meini Prawf Llwyddiant</p> <p>1. Byddant yn deall beth yw Briff Dylunio 2. Byddant yn gwybod ei bod yn bwysig gwybod pwy yw'r Cwsmer a sut mae hyn yn llywio'r broses ddylunio 3. Byddant yn deall beth yw ystyr y term dylunio Iterraidd.</p>	<p>Gwaith Cartref W7</p>

Fe all y Rhaglen Ddysgu hon newid.